# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 9
25/05/20

## Yr Ysbryd Glân yn dod

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams, Elin Bryn, Gwyn Rhydderch, Morgan Bryn & Rhys Hughes

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**

Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i gilydd eto. Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod. Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw. Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i wneud hynny.

Bryd hynny roedd Iddewon crefyddol o wahanol wledydd wedi dod i aros yn Jerwsalem. Clywon nhw'r sŵn hefyd, ac roedd tyrfa fawr wedi casglu at ei gilydd i weld beth oedd yn digwydd. Roedden nhw wedi drysu, am fod pob un ohonyn nhw yn clywed ei iaith ei hun yn cael ei siarad. Roedd y peth yn syfrdanol! "Onid o Galilea mae'r bobl yma'n dod?" medden nhw. "Sut maen nhw'n gallu siarad ein hieithoedd ni?" (Roedd Parthiaid yno, a Mediaid, Elamitiaid, pobl o Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia, Pamffilia, yr Aifft, a'r rhan o Libia sydd wrth ymyl Cyrene; pobl oedd ar ymweliad o Rufain – rhai yn Iddewon ac eraill yn bobl oedd wedi troi at y grefydd Iddewig – a hefyd Cretiaid ac Arabiaid) "Maen nhw'n siarad ein hieithoedd ni, ac yn dweud am y pethau rhyfeddol mae Duw wedi'u gwneud!" Dyna lle roedden nhw'n sefyll yn syn, heb ddim clem beth oedd yn digwydd. "Beth sy'n mynd ymlaen?" medden nhw.

Ond roedd rhai yno'n gwatwar a dweud, "Maen nhw wedi meddwi!"

Dyma Pedr yn codi ar ei draed i annerch y dyrfa, a'r unarddeg arall wrth ei ymyl: "Arweinwyr, bobl Jwdea, a phawb arall sy'n aros yma yn Jerwsalem, gwrandwch yn ofalus – gwna i esbonio i chi beth sy'n digwydd. Dydy'r bobl yma ddim wedi meddwi fel mae rhai ohonoch chi'n dweud. Mae'n rhy gynnar i hynny! Naw o'r gloch y bore ydy hi! Na, beth sy'n digwydd ydy beth soniodd y proffwyd Joel amdano: 'Mae Duw yn dweud: Yn y cyfnod olaf, bydda i'n tywallt fy ysbryd ar y bobl i gyd. Bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo, bydd dynion ifanc yn cael gweledigaethau, a dynion hŷn yn cael breuddwydion. Bryd hynny bydda i'n tywallt fy Ysbryd ar fy ngweision i gyd, yn ddynion a merched, a byddan nhw'n proffwydo. Bydd pethau rhyfeddol yn digwydd yn yr awyr ac arwyddion gwyrthiol yn digwydd ar y ddaear – gwaed a thân a mwg yn lledu ym mhobman. Bydd yr haul yn troi'n dywyll a'r lleuad yn mynd yn goch fel gwaed cyn i'r diwrnod mawr, rhyfeddol yna ddod, sef, Dydd yr Arglwydd. Bydd pawb sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael eu hachub.'"

*Actau 2:1-21 Beibl.net*



**Fersiwn syml**

Ar ddydd y Pentecost roedd ffrindiau Iesu i gyd gyda'i gilydd yn yr un lle. Yn sydyn, dyma nhw'n clywed sŵn fel gwynt yn rhuthro drwy'r ystafell a fflamau tân yn dod lawr arnyn nhw. Cawson nhw eu llenwi gyda'r Ysbryd Glân a dechreuon nhw siarad mewn ieithoedd eraill! Roedd y bobl yn y stryd, oedd yn dod o lawer o wledydd gwahanol, yn methu credu oherwydd roedd pawb yn gallu eu deall nhw yn eu hiaith eu hun. Ond dwedodd Pedr wrthyn nhw: 'Dyma beth roedd Duw yn ei ddweud fyddai'n digwydd!'


# Cwestiynau i'w Trafod



Ar ôl darllen y stori gyda'n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Beth ydy'r peth rhyfeddaf sydd wedi digwydd i chi erioed?
2. Pa bethau anodd ydych chi angen help gyda nhw?
3. Pa beth rhyfedd oedd wedi digwydd i'r disgyblion ar y Pentecost?
4. Sut oedd yr Ysbryd Glân wedi helpu'r disgyblion i rannu'r newyddion da am Iesu?


# Lliwio



Llun: Lena London - licensed under a Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 License.
http://www.supercoloring.com/coloring-pages/descent-of-the-holy-spirit-at-pentecost

# Yr Ysbryd Glân yn dod


www.lambsongs.co.nz Stori: Jill Kemp Lluniau: Richard Gunther





Cyn i Iesu fynd i fyny i'r nefoedd dywedodd wrth ei ddisgyblion am aros yn Jerwsalem nes iddynt dderbyn pŵer gan Dduw.



Wedi i Iesu fynd i fyny i'r nefoedd wnaeth rhai o'i ffrindiau gyfarfod yn Jerwsalem, mewn tŷ i fyny'r grisiau. Yno dyna nhw'n aros, fel roedd Iesu wedi dweud wrthyn nhw am wneud.



Yn sydyn fe glywson nhw wynt cryf yn chwythu nes oedd y tŷ ble'r oedden nhw'n aros yn ysgwyd. Duw oedd wedi anfon ei Ysbryd Glân.



Llenwodd pŵer yr Ysbryd Glân pob un ohonyn nhw. Fe welson nhw rywbeth oedd yn edrych fel fflamau yn fflachio uwch eu pennau. Roedden nhw'n teimlo fod Duw yn bresennol gyda nhw.



Roedd y fflamau'n llachar ac yn dawnsio'n yr aer ond chawson nhw mo'u llosgi. Roedd eu calonnau'n llawn o gariad tuag at Dduw ac fe wnaethon nhw ei addoli a'i ganmol.



Yn awr gallai ffrindiau Iesu siarad yn unrhyw iaith a hwythau erioed wedi'i dysgu! Fe wnaeth yr Ysbryd Glân nhw'n ddewr hefyd! Roedden nhw eisiau i bawb wybod am Iesu!



Aethon nhw allan o'r ystafell a siarad gyda phobl o wledydd eraill yn iaith y bobl rheini. Dywedon nhw fod Iesu wedi dod yn ôl o farw'n fyw ac fe oedd pawb yn y dyrfa yn eu deall.




Pan ddaeth yr Ysbryd Glân i'w bywydau roedd fel cychwyn newydd sbon iddyn nhw. Y diwrnod hwnnw daeth llawer iawn i gredu'n Iesu a'i ddilyn.

# Posau

## Pa iaith?


Pan ddaeth yr Ysbryd Glân, roedd yr apostolion yn gallu siarad am Iesu mewn ieithoedd eraill. Allet ti dynnu llinell i gysylltu enwau Iesu isod â'u hieithoedd cywir?

| | | |
|---|---|---|
| Ciise | Slofeneg |  |
| Jesus | Gwyddeleg |  |
| Jezus | Cymraeg |  |
| Iesu | Groeg |  |
| Íosa | Saesneg |  |
| Ιησούς | Somaleg |  |

## O ble mae'r pŵer yn dod?

Rhoddodd yr Ysbryd Glân bŵer i'r apostolion fyw dros Iesu. Cysyllta’r eitemau hyn â'u ffynhonnell bŵer.




















# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | I | A | R | A | D | S | Y | G | I | L | F |
| Y | D | N | O | G | Ŵ | I | U | B | A | R | Y |
| F | I | R | Y | W | N | E | P | L | I | DD | R |
| R | D | F | DD | Y | N | I | E | Â | TH | F | C |
| D | Y | E | Y | N | Y | TH | R | E | P | A | O |
| A | R | DD | D | T | P | O | E | CH | Ŵ | O | D |
| N | B | P | E | N | T | E | C | O | S | T | G |
| O | S | D | L | Â | I | DD | E | W | O | N | U |
| L | Y | Y | W | R | E | W | A | S | T | R | A |
| U | Ŵ | A | G | R | S | G | N | Â | L | G | DD |
| G | E | DD | C | A | U | R | I | E | A | D | A |
| T | Â | N | U | A | M | A | L | FF | LL | W | M |

CRYF
DATHLU
FFLAMAU
GLÂN
GWLEDYDD
GŴYL
GWYNT
IAITH
IEITHOEDD
IESU
IDDEWON
LLENWI
MADDAU
PEN
PENTECOST
PERTHYN
SIARAD
SYFRDANOL
TÂN
YSBRYD

# Dolenni





Wyt ti'n cofio'r dudalen lliwio yr wythnos diwethaf gyda'r bendith arno? Mae criw o blant o Gymru a Phatagonia wedi'i recordio! Dyma'r ddolen: https://www.youtube.com/watch?v=Ig9On7H9A8c

Sgetsh bypedau https://youtu.be/u1HEL4smbPc

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/RUGXIBcvoRM




Fideo o'r stori https://youtu.be/O86GL5DdCI4

Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=OMQKy1Mx49M






Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/
Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY (cliciwch 'Subscribe')
Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Gweddi fer



O Dduw, diolch i Ti am anfon yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost. Diolch i Ti dy fod yn gallu bod gyda ni drwy dy Ysbryd Glân bob amser. Plîs anfona dy Ysbryd Glân i'n helpu ni i dy garu Di fwy. Plîs amfona dy Ysbryd Glân i'n helpu ni i ddangos dy gariad Di tuag at bobl eraill. Amen.

# Sialensau





Ysgrifenna nodyn i ddiolch i bobl sy'n casglu'r biniau.

Ysgrifenna nodyn/gerdyn i godi calon ffrind.



Gofynna i aelod o'r teulu dynnu llun ohonot yn gwneud y crefft o'r pecyn hwn a'i roi ar grŵp Facebook, WhatsApp eich Ysgol Sul neu Glwb Plant.


## Sialens Awyren

Pa mor bell fedr dy awyren bapur di hedfan?

Gwna awyren bapur a'i hedfan hi yn y tŷ.

A wnaiff yr awyren bapur hedfan ymhellach ar y gwynt os ei di â hi y tu allan?

Gad i ni weld awyren pwy wnaiff hedfan bellaf.





Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?

# Crefft

## Troell Pentecost






**Byddi angen:**

Templedi'r droell, bocs gwag cardfwrdd, llinyn, pinnau ffelt, pensil, pren mesur, siswrn, glud, sgiwer bambŵ (ar gyfer gwneud tyllau)





1.Lliwia dempledi'r droell mewn lliwiau fflamau ac yna torra nhw allan.




2.Gluda un ohonyn nhw'n sownd yn y bocs cardfwrdd a thorra fo allan.



3.Tro'r droell drosodd a gluda'r templed arall yn sownd ynddo fel bod gen ti batrwm ar ddwy ochr y droell.



4.Gyda'r pren mesur tyrd o hyd i ganol y droell a mesura 1/2cm bob ochr i'r canol.



5.Gan ddefnyddio'r sgiwer bambŵ gwna ddau dwll yn ofalus yn y droell ble mae'r ddau ddot.




6.Mesura linyn 50cm o hyd a thorra fo.




7.Gwthia'r llinyn drwy'r tyllau.




8.Clyma ddau ben y llinyn ynghyd ac yna gwna gwlwm.



**I'w ddefnyddio:** Gwna'n siŵr fod y droell ynghanol y llinyn a thyrd â dau ben y llinyn ynghyd fel taset ti'n gwneud â rhaff sgipio a thynna. Neu dalia'r llinyn ar dynn a chordedda'r llinyn gyda dy fodiau a bysedd yr uwd. (pointer fingers) Mwynha!





# Rysáit

## Jelis Pentecost



**Bydd angen:**

- 3 paced o jeli – 1 coch, 1 oren, 1 melyn
- Ffrwythau i gyfateb â lliwiau'r jelis e.e. mefus, oren, pîn afal

**Dull**

- Dilyna'r cyfarwyddiadau ar y pacedi er mwyn paratoi pob jeli. Gwna pob lliw ar wahân.
- Arllwysa'r jeli coch i fewn i fowld jeli. (Un mawr neu nifer o rai llai.)
- Ychwanega'r ffrwythau coch wedi'u malu'n fân.
- Gosoda'r mowld yn y rhewgell am ugain munud neu nes bod y jeli wedi caledu'n iawn.(Cofia sicrhau fod y jeli'n galed neu fe fydd y ffrwythau'n arnofio i'r wyneb.)
- Yna paratoa'r jeli oren yn ôl y cyfarwyddyd ar y paced. Arllwysa fo ar ben y jeli coch sydd wedi rhewi. Ychwanega'r ffrwythau oren wedi'u malu'n fân.
- Gosoda'r cyfan yn y rhewgell nes fod y jeli'n galed.
- Paratoa'r jeli melyn yn ôl y cyfarwyddyd ar y paced.
- Arllwysa'r jeli melyn ar ben y jeli oren.
- Ychwanega'r ffrwythau oren wedi'u torri'n fân.
- Rho'r cyfan yn yr oergell i setio.
- Mwynha'r jelis a'r ffrwythau gydag ychydig o hufen.



# Canu

**Mae Duw wedi rhoi ei Ysbryd Glân,**
**wedi rhoi ei Ysbryd Glân i chi,**
**wedi rhoi ei Ysbryd Glân i blant,**
**ac i bobl sydd yn byw yn bell i ffwrdd,**
**pawb fydd yr Arglwydd Dduw**
**yn eu galw ato'i hun.**
**Actau pennod 2, Actau pennod 2,**
**Actau pennod 2, adnod trideg naw.**



Hawlfraint 2010 Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/RUGXIBcvoRM

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen noddiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Gweddi Greadigol

## Troellen ('Spiral') weddi




**Bydd angen:**

- Cerdyn tebyg i focs grawnfwyd
- Edau

**Beth i'w wneud:**

- Tynna lun troellen ('spiral') ar y cerdyn.
- Addurna'r droellen gyda symbolau'r Ysbryd Glân fel fflamau a cholomen.
- Ysgrifenna weddi ar y droellen yn gofyn am nerth yr Ysbryd Glân i fod yn ffrind da ac am y gallu i faddau a rhannu.
- Torra'r droellen allan.
- Glyna ddarn o edau ar ddarn canol y droellen a'i hongian.






## Dwylo



**Byddi angen:**


- Siswrn
- Creonau neu bensiliau coch, oren a melyn
- Glud

**Dull**

- Gwna amlinelliad o un o dy ddwylo â chreon neu bensil coch ac yna lliwia'r llun. Wrth wneud hyn meddylia am Iesu'n marw drosot ar y groes. Fe allet ti ddweud mae'n ddrwg gen i am rywbeth ti wedi'i wneud o'i le a gofyn i Iesu dy helpu i beidio â'i wneud eto.
- Gwna amlinelliad o dy law arall neu law un o'r teulu â chreon neu bensil oren. Meddylia am Iesu'n dod nôl o farw'n fyw. Fe allet ti ofyn i Iesu am y gobaith o fywyd newydd ynddo ef.
- Gwna amlinelliad o dy law â chreon neu bensil lliw melyn. Meddylia am Iesu'n anfon yr Ysbryd Glân i dy helpu a dy lenwi'r funud hon.

# Gweddi Greadigol





## Gweddi 'Skittles'

**Bydd angen:**

- Paced o 'Skittles'
- Plât
- Dŵr poeth (ddim digon poeth i losgi, ond ddigon poeth i wneud i'r lliw redeg)

**Beth i'w wneud:**

- Gosoda'r 'Skittles' mewn cylch o gwmpas y plât. Am bob 'Skittle' fyddi di'n ei roi ar y plât, meddylia am rywun rwyt ti eisiau gweddïo drostyn nhw.
- Arllwysa'r dŵr poeth ar y plât i fynd dros wyneb y plât i gyd.
- Arllwysa'n ofalus er mwyn cadw'r 'Skittles' rhag symud.
- Arhosa i wylio lliwiau'r 'Skittles' yn ymdoddi'n araf a phatrymog i'r dŵr.

## Gweddi dros y byd:

**Bydd angen:**
Map o'r byd neu glôb.

**Beth i'w wneud:**

- Gafaela yn y glôb a'i throellu.
- Stopia droellu'r glôb yn sydyn.
- Ble bynnag bydd dy fawd yn gyffwrdd, gofynna i Dduw fod yn agos at bobl y wlad honno.

NEU ...

- Chwilia am lun o fap o'r byd ar dy gyfrifiadur neu dabled.
- Cau dy lygaid a rho dy fys yn rhywle ar y map.
- Ble bynnag bydd dy fys yn gyffwrdd, gofynna i Dduw fod yn agos at bobl y wlad honno.









# Gemau



## Ras chwythu

**Bydd angen:**

- potel hylif golchi llestri wag, neu unrhyw botel blastig gallwch ei gwasgu ac sydd ganddi ‘drwyn’ (nozzle)
- 4 silindr,
- bocs cardfwrdd
- pin ffelt
- siswrn
- amserydd – oriawr, ffôn neu amserydd berwi ŵy






**Sut i chwarae:**

- Torra ddarn bach o waelod silidr cardfwrdd i wneud bwlch. Gwna’r un peth â’r 3 silindr arall.
- Ysgrifenna enw iaith wahanol ar y pedwar silindr cardfwrdd – Cymraeg, Ffrangeg, Rwseg, Tsieinëeg.
- Torra 4 cownter o focs cardfwrdd a’i gwneud yn llai na’r bwlch ar waelod pob silindr.
- Ysgrifenna enwau’r 4 iaith ar y cownteri.
- Gosoda’r silindrau cardfwrdd mewn rhes.
- Gosoda’r cownteri ychydig o cetimetrau oddi wrth y silindrau.
- Defnyddia’r botel hylif golchi llestri wag i chwythu’r cownteri i mewn i’r silindra gyda’r un iaith arnyn nhw.
- Amsera’r pa mor hir mae’n gymryd i chwythu’r cownteri i gyd i mewn i’r silindr cardfwrdd cywir.

*Gyda help yr Ysbryd Glân roedd y disgyblion yn gallu siarad pob math o ieithoedd gwahanol i ddweud y newyddion da am Iesu.*

## Ras chwythu trwy’r ddrysfa



**Bydd angen:**

- Clai neu wellt yfed a thâp selo
- Pêl ‘ping pong’
- Gwelltyn yfed

**Sut i chwarae**

- Rholia’r clai rhwng dy ddwylo i greu darn hir tenau.
- Defnyddia’r clai i greu drysfa ar fwrdd.

NEU …


- Gwna lwybr gan ddefnyddio’r gwellt yfed a gluda nhw i’r llawr gyda’r tâp selo.
- Yna, rho’r bêl ar ddechrau’r ddrysfa a chwytha trwy’r gwelltyn i yrru’r bêl trwy’r ddrysfa.
- Os ydy’r bêl yn mynd dros y clai neu’r gwellt, cychwynna o’r cychwyn!
- Pa mor gyflym fedri di chwythu’r bêl o un pen i’r llall?

*Roedd yr Ysbryd Glân wedi dod fel sŵn gwynt cryf oedd yn helpu’r disgyblion i wneud pethau rhyfeddol dros Iesu. Mae’r Ysbryd Glân yn gallu ein helpu ninnau yr un fath heddiw.*

# Gemau



## Ras balwnau



**Bydd angen:**
- balŵn i bob chwaraewr
- llinyn neu sialc

**Sut i chwarae:**
- Gosoda llinell ar y llawr gyda'r llinyn (os yn chwarae tu fewn) neu'r sialc (os yn chwarae tu allan).
- Mae'r chwaraewyr yn sefyll rhyw bum cam mawr yn ôl oddi wrth y llinell.
- Mae pob chwaraewr yn chwythu'i falŵn nes ei fod yn eithaf llawn o aer.
- Ar ôl cyfri' i dri, mae pawb yn gollwng eu balŵn i gyfeiriad y llinell.
- Yr enillydd ydy'r chwaraewr mae ei falŵn yn croesi'r llinell gyntaf.
- Rhowch fwy nag un cynnig arni.

Ydy hi'n hawdd gwybod i pa gyfeiriad bydd y balŵn am hedfan?
Mae'n debyg i bêl rygbi'n bownsio - wyddost ti ddim i ba gyfeiriad y bydd yn mynd.

*Doedd y disgyblion ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan ddaeth yr Ysbryd Glân chwaith!*

## Adnod Balŵn

1.Lliwia'r fflamau'n goch, oren a melyn.
2.Torra nhw allan.
3.Rholia nhw'n fychan.
4.Rho nhw fesul un yn y balŵn.
5.Chwytha'r balŵn a meddylia am yr Ysbryd Glân yn y stori heddiw.
6.Nawr byrstia'r balŵn ac fe weli di'r tafodau tân yn glanio ar bennau'r disgyblion.
7.Rho'r adnod mewn trefn. Fe allet ti amseru dy hunan neu gallet ti gael ras yn erbyn aelod o'r teulu.

